VOLUNTARY ACTION
MERTHYR TYDFIL
GWEITHREDU GWIRFODDOL
MERTHYR TUDFUL

# ADRODDIAD EFFAITH BLYNYDDOL

2022-23

## YN DATHLU






# Ein heffaith ar draws Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

**Mae'r Adroddiad Effaith Blynyddol hwn yn dangos y gwahaniaeth rydym wedi'i wneud mewn cymunedau ledled Merthyr Tudful yn ystod y flwyddyn 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023.**

**Mae Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful (VAMT) yn fudiad ymbarél ar gyfer mudiadau trydydd sector. Rydym yn ymdrechu i gynyddu maint, ansawdd ac effaith gweithredu gwirfoddol ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful drwy gefnogi, cynrychioli a chynorthwyo mudiadau trydydd sector a gwirfoddoli. Rydym yn gweithio gyda'r sector a phartneriaid i sicrhau newid drwy wella lles unigolion, mudiadau a chymunedau.**

**Ni fyddai dim o'n gwaith yn bosibl heb gefnogaeth ein cyllidwyr yr ydym yn hynod ddiolchgar iddynt:**

Ariennir gan Lywodraeth Cymru / Funded by Welsh Government

GIG Cymru NHS Wales – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board

Merthyr Tydfil County Borough Council / Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Lloyds Bank Foundation England & Wales

**Mae gan VAMT 328 o aelodau ac mae'n gysylltiedig â llawer mwy trwy bartneriaethau / rhwydweithiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Rydym yn rhan o Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW), partneriaeth rhwng Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli ledled Cymru. Ymdrech gyfunol TSSW yw cefnogi'r trydydd sector trwy bedair piler allweddol o weithgaredd ar themâu gwirfoddoli; llywodraethu da; cyllid cynaliadwy, ac ymgysylltu a dylanwadu.**

Cefnogi Trydydd Sector Cymru / Third Sector Support Wales

Gwirfoddoli Cymru / Volunteering Wales

Marc Elusen Ddibynadwy / Trusted Charity Mark – Lefel / Level 1 – NCVO

infoengine

Ewch i **www.vamt.net** am fwy o wybodaeth neu i ddod yn aelod.

Gallwch ein dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol canlynol:

- Facebook: /Voluntary Action Merthyr Tydfil
- Facebook: /Volunteer Centre Merthyr Tydfil
- X: @VAMTtweets
- YouTube: Voluntary Action Merthyr Tydfil

# Cynnwys


Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Swyddog .... 4
Pen-blwydd VAMT yn 25 .... 5
Gwirfoddoli .... 7
Llywodraethu .... 8
Cyllid Cynaliadwy .... 9
Ymgysylltu a Dylanwadu .... 10
Gwerth ychwanegol drwy waith a ariennir gan brosiectau .... 11
Cynlluniau ar gyfer cyfnodau'r dyfodol .... 12
Datganiad o weithgareddau ariannol .... 13
Mantolen .... 14
Ymddiriedolwyr a Gweinyddiaeth Elusen .... 14


## YN YSTOD 2022-23...

...rydym wedi rhoi cymorth a chyngor i **527** o aelodau a rhanddeiliaid

...rydym wedi cefnogi a lleoli **116** o wirfoddolwyr mewn rolau gwirfoddol

Mae **269** o fudiadau'r trydydd sector wedi derbyn cyngor a chefnogaeth uniongyrchol gennym ni

...rydym wedi cefnogi mudiadau'r trydydd sector i sicrhau cyllid o **£1,500,176**

Mae **£353,454** o gyllid wedi'i ddarparu i fudiadau'r trydydd sector drwy gynlluniau grantiau a weinyddir gennym ni

Mae **414** o gynrychiolwyr wedi mynychu ein fforymau a'n digwyddiadau

...rydym wedi darparu cyrsiau hyfforddi ar gyfer **25** o gyfranogwyr

Mae ein haelodaeth wedi cynyddu **11%** i **328**

# Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Swyddog

**Mae'n bleser gennym gyflwyno i chi Adroddiad Effaith Blynyddol 2022-23 Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful (VAMT). Rydym yn ddiolchgar iawn i'n holl staff, ymddiriedolwyr a phartneriaid sydd wedi parhau â'r daith gyda ni dros y flwyddyn ddiwethaf.**

Er gwaethaf ein hoptimistiaeth yn ein hadroddiad diwethaf, rydym yn cydnabod bod yr effeithiau a'r cwymp o'r tair blynedd diwethaf yn dal i'w teimlo ar draws y trydydd sector a hefyd gan ein partneriaid yn y sector cyhoeddus. Mae'n ymddangos bod adferiad o'r pandemig yn parhau, mae'r argyfwng costau byw yn dal i frathu a gwaethygu, ac mae pryder gwirioneddol nawr am yr effaith hirdymor ar unigolion, mudiadau a chymunedau.

Dim ond un anhawster yw recriwtio a ddeilliodd o'r sefyllfa economaidd bresennol ac mae'n ymddangos bod her ledled y wlad yn effeithio ar y trydydd sector ar adeg pan gânt eu deall yn well ar gyfer darparu gwasanaethau, ac y dibynnir arnynt yn fwy nag erioed o'r blaen.

Mae'n amlwg bod trefniadau cyllido tymor byr yn dod â mwy o fregusrwydd i'r sector ar adeg pan fo partneriaid yn y sector cyhoeddus eu hunain yn cael eu herio'n ariannol. Ni ellir ystyried un, dau, neu hyd yn oed cyllid tair blynedd yn hirdymor a chynaliadwy, ac mae'n gwneud cynllunio ar gyfer y dyfodol yn anhygoel o anodd. Mae'n hen ddadl sy'n dal i rygnu ymlaen ac felly rydym yn croesawu'r adolygiad sydd ar ddod gan Lywodraeth Cymru o Gynllun y Trydydd Sector a'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'n partneriaid statudol i ymgorffori unrhyw newidiadau i'r Cod.

Mae eleni wedi bod yn sylweddol, yn yr ystyr bod VAMT a'n holl gydweithwyr Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW) wedi dathlu 25 mlynedd o gynghorau gwirfoddol sirol, a chanolfannau gwirfoddoli yng Nghymru.

Mae ein tîm wedi cyflawni gwaith aruthrol yn ystod y deuddeg mis diwethaf ac rydym yn hynod falch ohonyn nhw i gyd. Rydym wedi adolygu a symleiddio ein rhwydweithiau a'n fforymau; cynyddu ein haelodaeth yn sylweddol; a pharhau i ddarparu cefnogaeth yn lleol ac yn rhanbarthol.

Er bod ein gwaith craidd yn parhau ynghylch gwirfoddoli, llywodraethu, cyllid cynaliadwy, ac ymgysylltu a dylanwadu, rydym yn falch o fod yn gweithio gyda phartneriaid newydd, sy'n dod â chyfle i gyflwyno rolau newydd i'r tîm yn ystod y misoedd nesaf.

Felly, dyma flwyddyn gyffrous i ddod ac edrychwn ymlaen at weithio gyda chi i gyd.



**Dr Hefin Jones OBE**
**Cadeirydd**



**Sharon Richards**
**Prif Swyddog**

# Pen-blwydd VAMT yn 25




**Mae eleni'n nodi 25 mlynedd ers sefydlu cynghorau gwirfoddol sirol ledled Cymru. Cynhaliwyd dathliad iselgywair i gyd-fynd â'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ac roeddem yn falch o gael ein cyn Brif Swyddog, Ian Davy, i gyflwyno cyflwyniad o adfyfyrio ar gyflawniadau a heriau'r mudiad ar hyd y blynyddoedd.**

## 25 Cyflawniad/Digwyddiad nodedig

1. **1997** Sefydlu Cynghorau Gwirfoddol Sirol, sy'n cyd-ffinio â rhanbarthau Awdurdod Lleol. Agorodd swyddfa Merthyr Tudful gydag Ian Davy yn brif swyddog.
2. **1997–2000** Sefydlu Canolfan Wirfoddoli, swyddfa gwaith maes yn Nhreharris, a phenodi swyddog datblygu drwy gyllid yr UE.
3. **2000** Datblygu Cytundeb Compact gyda'r Awdurdod Lleol; un o'r cyntaf yng Nghymru.



4. **2000** Dathliadau gwirfoddoli yn digwydd yng Nghastell Cyfarthfa.
5. **2001** Cyflwyno'r Gronfa Gweithredu Gwirfoddol, datblygiad sylweddol ar y pryd, gan ddarparu £150,000 yn flynyddol i'r sector.
6. **2001-2008** Cawsom gynnydd yn nifer y staff diolch i Amcan Un, Adeiladu Pontydd Cryfach, Cefnogaeth i Ofalwyr, a mwy o gyllid gan Lywodraeth Cymru.
7. **2002** Agorwyd y Ganolfan Gweithredu Gwirfoddol gan Prif Weinidog Cymru ar y pryd, Rhodri Morgan.
8. **2002** Rhaglen gwrthdlodi flaenllaw Llywodraeth Cymru (Cymunedau yn Gyntaf) yn dechrau – gyda VAMT yn cynnal dau o'r meysydd buddsoddi.
9. **2002** Cafwyd gorymdaith carnifal drwy'r dref i ddathlu Wythnos y Gwirfoddolwyr.
10. **2003** Sefydlwyd seremoni Gwobrau Gwirfoddoli i gydnabod cyfraniad gwirfoddoli yn ein Bwrdeistref.
11. **2007** Sefydlwyd gwobr Cyfraniad Eithriadol i Wirfoddoli i goffáu ein diweddar gydweithiwr, Nicola Park.
12. **2009** Arwain ar hwyluso cyfranogiad trydydd sector mewn swyddogaethau craffu, yn dilyn digwyddiad a drefnwyd gennym gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol.
13. **2010** Mae'r mudiad yn tyfu, gyda 38 aelod o staff – y mwyaf erioed!
14. **2011** Datblygu Comisiwn Wedi'i Gyflawni– Cod Ymarfer ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau Trydydd Sector, sy'n sail i'r Cytundeb Compact diwygiedig.
15. **2013** Derbyniwyd y 400,000[fed] Wobr ariannu gan y Loteri Genedlaethol, i reoli MAGNET, consortiwm o saith prosiect, a gyflwynwyd dros bum mlynedd.





**16.** **2014** Partner allweddol yng Nghronfa Gofal Integredig Cwm Taf (ICF). Cyd-arwain ar beilot Cydgysylltwyr Cymunedol Merthyr Tudful a RhCT, gan gysylltu pobl hŷn â gweithgareddau cymunedol; prosiect sy'n dal i fynd yn gryf.

**17.** **2014** Gweinyddu Cynlluniau Grant Capasiti Cymunedol ICF – £150k i ddechrau yn codi i £240k, gydag ehangu a chyfleoedd newydd yn cael eu datblygu mewn dementia, cyfeillio a chyfalaf yn y blynyddoedd dilynol.

**18.** **2017** Mae'r gwobrau gwirfoddoli yn datblygu fel Gwobrau Rhagoriaeth Trydydd Sector gyda Michael Sheen, fel Llywydd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, yn cefnogi'r digwyddiad yn ei ymgysylltiad swyddogol cyntaf.




**19.** **2018** Arweiniodd cydweithio newydd gyda Sefydliad Banc Lloyds at iddynt ddewis Merthyr Tudful fel ardal i gyflawni eu Rhaglen Pobl a Chymunedau - un o ddim ond 6 yn y DU a'r unig un yng Nghymru!

**20.** **2019** Cael cyllid i gynnal swydd datblygu ranbarthol i gefnogi blaenoriaeth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf sef Mynd i'r Afael ag Unigrwydd ac Ynysigrwydd.

**21.** **2019** Datblygwyd Parth Cymunedol gan VAMT yn Gurnos ar gyfer gwybodaeth, cyngor, a chymorth, ac yna cymorth datblygu cymunedol.

**22.** **2020** Ymddeoliad Ian Davy, Prif Swyddog ar ôl 31 mlynedd o wasanaeth, gyda pharti gadael ar Teams.

**23.** **2020-21** Nifer o gynlluniau grant a weinyddir mewn ymateb i'r argyfwng Covid; Grant Bach, Cronfa Argyfwng Comic Relief, Cyllid Iechyd, Cronfa Argyfwng Llywodraeth Cymru, a Grant Adfer Covid Llywodraeth Cymru.

**24.** **2020-21** Mae Tîm Iechyd Cyhoeddus CTM yn ein gwahodd i gynnal gweithiwr i gefnogi cymunedau Du Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) i ymgysylltu â'r rhaglen frechu Covid.

**25.** **2022** Mae model gwasanaeth newydd o amgylch iechyd meddwl yn ein galluogi i gael swyddogion cymorth penodol ar gyfer Merthyr Tudful, a ariennir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

## DROS Y 25 MLYNEDD DIWETHAF…

…rydym wedi cefnogi'r sector i gael mynediad at
**£17,252,778.**

…rydym wedi gweinyddu
**£4,150,049**
mewn cyllid grant.

…rydym wedi lleoli
**3,763**
o wirfoddolwyr.

…rydym wedi cefnogi
**3,436**
o fudiadau a grwpiau gwirfoddol.

…rydym wedi rhoi cymorth, cefnogaeth a chyngor heb fod yn llai na
**53,618 o weithiau!**



# Gwirfoddoli

**Mae rhoi gwybodaeth a chyngor i unigolion a mudiadau ar wirfoddoli ac arfer da yn rhan hanfodol o'n cefnogaeth.**

Mae'r Ganolfan Gwirfoddoli yn darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i unigolion sy'n dymuno gwirfoddoli. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth a chyngor i fudiadau ar recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr, yn ogystal â hysbysebu cyfleoedd gwirfoddoli ar eu rhan. Rydym yn hyrwyddo cyfleoedd sydd ar gael fel mater o drefn drwy wefan Gwirfoddoli Cymru.

Rydym yn annog cyfranogiad yn ein Polisi Gwirfoddoli i Weithwyr ac mae'r holl staff wedi gwirfoddoli i gefnogi mudiadau sy'n aelodau yn ystod y flwyddyn.

## Yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni:

- Yn ystod y flwyddyn, cefnogodd y Ganolfan Wirfoddoli **75** o wirfoddolwyr unigryw ac yna brocera a chefnogi **41** arall i ymgymryd â gwaith gwirfoddol.
- Trefnu a hwyluso **3** Fforwm ar gyfer Rheolwyr Gwirfoddolwyr ar gyfer ein haelodau er mwyn hyrwyddo arfer gorau, cyngor ar bolisi, rhannu gwybodaeth, a rhwydweithio.
- Roedd y Ganolfan Wirfoddoli wedi cynnal rhaglen Grantiau dan Arweiniad Ieuenctid, gan drefnu a chefnogi panel a asesodd geisiadau grant a dyfarnu cyfanswm o **£5,450** i **6** mudiad.

**Mae dathlu Wythnos y Gwirfoddolwyr yn ddigwyddiad pwysig yn ein calendr, a gynhelir bob blwyddyn yn ystod wythnos gyntaf mis Mehefin. Eleni trefnwyd Ffair Wirfoddoli yng Nghanol Tref Merthyr Tudful a gefnogwyd yn swyddogol gan Uchel Siryf Morgannwg Ganol. Rhoddodd y Ffair gyfle i aelodau hyrwyddo eu gwasanaethau a'u cyfleoedd gwirfoddoli. Cymerodd 12 aelod ran a nododd pob un ohonynt fudd mewn ymgysylltu â darpar wirfoddolwyr newydd a hefyd defnyddwyr gwasanaeth.**



*Yr Uchel Siryf Maria Thomas, a Suzanne Davies, Cadeirydd VAMT, yn ymweld â stondin Home Start Cymru yn y Ffair Wirfoddoli.*

**Gwnaethom ddefnyddio ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol i dynnu sylw at y gwirfoddoli a wneir ar draws mudiadau sy'n aelodau, a derbynion ni glipiau ffilm 'diolch' gan ddarllenwyr newyddion ITV Cymru a oedd am gydnabod a dathlu'r ymdrechion gwirfoddoli a wnaed ar draws y Fwrdeistref yn ffurfiol.**

"Rwy'n newydd i wirfoddoli ... Rwy'n dioddef o orbryder ac iselder ac ro'n i'n teimlo bod angen rhywbeth arnaf i geisio fy annog i fagu fy hyder eto."

"Mae'n fy nghael i allan o'r tŷ ac yn gwneud i mi deimlo'n dda yn helpu eraill."

"Ro'n i eisiau helpu eraill yn enwedig y rhai sy'n cael trafferth ac angen rhywfaint o gefnogaeth."

"Mae gwirfoddoli wedi bod yn ffordd wych i mi wneud ffrindiau. Mae wedi fy nghael i allan o'r tŷ ac mae wedi rhoi ffocws i mi."

# Llywodraethu Da

**Mae darparu gwybodaeth, arweiniad a chymorth datblygu ar faterion llywodraethu yn rhan hanfodol o'r hyn a wnawn ac yn helpu i wella sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd y rhai sy'n arwain grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol ym Merthyr Tudful.**

Rydym yn parhau i ddyrannu gwybodaeth i aelodau trwy ystod o wahanol sianelau cyfathrebu, h.y. drwy e-byst uniongyrchol, blog, a gwefan. Hefyd, rydym yn annog ac yn cyfeirio mudiadau i ddefnyddio'r adnoddau Llywodraethu sydd ar gael drwy Ganolfan Wybodaeth TSSW. Mae gan ein gwefan adran benodol ar gyfer "Llywodraethu Da" ac mae'n cynnig ystod o wybodaeth ac offer i gefnogi ymddiriedolwyr yn eu rolau.

Fel mudiad, mae gennym hanes hir o weinyddu grantiau a thros amser rydym wedi datblygu fframwaith llywodraethu cadarn iawn, gan sicrhau tryloywder proses, arfer diwydrwydd dyladwy o ran atebolrwydd ariannol; a sicrhau bod monitro ac adrodd yn adlewyrchu bwriad gwreiddiol y prosiect.

## Yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni:

- Parhau i sicrhau ystod o gyfleoedd cyllid grant ar gyfer mudiadau sy'n aelodau ac yn falch o adrodd trafodaethau cadarnhaol gyda Grŵp Llywio Dementia Cwm Taf Morgannwg.
- Rydym wedi gweinyddu Cynllun Grant Capasiti Cymunedol (Dementia) ers nifer o flynyddoedd ar draws rhanbarth Cwm Taf ac wedi cyflwyno cynnig i ddod ag ecwiti cyfle ar draws ôl troed cyfan y Bwrdd Iechyd. Cytunwyd ar y cynnig a bydd yn cyflwyno cynllun grant gyda mwy o gyllid o **33%** ar gyfer y cyfnod 2023-24.
- Rydym wedi bod yn gweinyddu Grant Cyfeillio ar ran Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol CTM ers blynyddoedd lawer, ac ers i'r gofynion cyllido ac adrodd newid o dan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, rydym wedi bod yn hwyluso cyfarfod bob chwe wythnos i'r rhai sy'n derbyn y grant ddod at ei gilydd a chael cefnogaeth gyda chydymffurfiad grant/cyllid ynghylch monitro.

*"Ni fyddem wedi gallu sefydlu'n iawn heb y gefnogaeth a'r arweiniad a roddodd VAMT inni." (Rhydfach Rebels)*

**Roedd Squirrels Friends Transgender Network eisiau sefydlu grŵp cymorth wyneb yn wyneb ym Merthyr Tudful i fynd i'r afael â'r unigedd cymdeithasol a'r unigrwydd y mae nifer fawr o bobl draws yn eu profi. Gan nad oedd ganddynt unrhyw gyllid i sefydlu hyn, fe wnaethant gyfarfod â ni ac roeddem yn gallu eu helpu i greu cyfansoddiad ac amrywiaeth o bolisïau. Yn dilyn hyn, roeddent yn gallu cael mynediad at gyfleoedd ariannu.**

**Gyda'n cymorth ni, mae gan Squirrels Friends Transgender Network gyfansoddiad a pholisïau gan gynnwys diogelu, iechyd a diogelwch a GDPR. Fe wnaethom hefyd ddarparu sesiwn hyfforddi iddynt er mwyn sicrhau eu bod yn deall goblygiadau'r polisïau.**




*Mae Squirrels Friends Transgender Network wedi cyrraedd y rhestr fer yn ddiweddar ar gyfer Gwobr Amrywiaeth Genedlaethol fawreddog.*

# Cyllid Cynaliadwy

**Rydym yn parhau i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i aelodau, er mwyn sicrhau bod ganddynt sgiliau, gwybodaeth a gallu i ddatblygu gwydnwch ariannol a gallu i gynnal eu mudiadau. Eleni fe wnaethom gyflwyno Cylchlythyr Cyllido rheolaidd i aelodau, ac y mae wedi derbyn adborth cadarnhaol.**

## Yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni:

- Sicrhawyd **£1,500,176** o gyllid i **11 mudiad** yn dilyn ein cefnogaeth o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (£1,193,609 ar gyfer 36 o fudiadau).
- Gwnaethom hefyd weinyddu amrywiaeth o gynlluniau grant ar draws yr ardal leol a rhanbarthol, gan ddyrannu cyfanswm o **£353,454** i **35 o fudiadau**.
    - Grant Unigrwydd ac Ynysigrwydd (11 dyfarniad) ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
    - Cronfa Integreiddio Rhanbarthol i gadw Cymorth Cyfeillio (6 dyfarniad)
    - Cynllun Grant Capasiti Cymunedol y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (6 dyfarniad)
    - Cronfa Gymunedol Comic Relief ar draws Cwm Taf Morgannwg (12 dyfarniad)
- Cynhaliwyd digwyddiad cylllido ym mis Mehefin 2022 i aelodau ymgysylltu â Chyllidwyr gan gynnwys Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Chwaraeon Cymru, ac Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo. Mynychwyd y digwyddiad gan **20 o unigolion** a oedd yn gallu ymgysylltu â chyllidwyr ar sail un i un.
- Dosbarthwyd **£10,000 pellach** gan Feeding Britain i bantris bwyd ledled y fwrdeistref i'w galluogi i ddarparu cymorth ychwanegol yn ystod yr argyfwng costau byw.

*"Mae VAMT wedi ein helpu ni'n fawr, hebddyn nhw fydden ni ddim yn cael yr holl weithgareddau yma ac yn gallu mynd o gwmpas yn y gymuned."*
*(Greenwood Golden Oldies)*

**Diolch i grant bach gan CGGC, cynhaliwyd dau ddigwyddiad ymgysylltu yn y gymuned i helpu i lywio'r Strategaeth Tlodi Plant newydd i Gymru. Cafodd y wybodaeth a gasglwyd ei bwydo i mewn i CGGC i'w chasglu fel ymateb gan TSSW.**

**Cysylltodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) â VAMT, Interlink a BAVO gyda chais i ddatblygu offeryn mapio rhyngweithiol i gyflwyno gweithgarwch thematig yn weledol a helpu cynorthwyo a chyflwyno tystiolaeth o'r Cynllun Lles rhanbarthol a'r amcanion. Rhoddodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyllid i gyflogi swyddog yn VAMT i ymgymryd â hyfforddiant ar QGIS. Roedd y gweithgaredd cafodd ei fapio yn gysylltiedig â hybiau cynnes a oedd wedi datblygu mewn ymateb i'r argyfwng costau byw.**

*"A dweud y gwir Karen, rydym mor ddiolchgar i chi a phawb yn VAMT a Comic Relief am eich grant anhygoel ar ddechrau'r flwyddyn hon (2022-23)! Mae wedi bod yn wirioneddol drawsnewidiol!"*
*(Jody Barnes, Rheolwr Gweithrediadau, Pêl-rwyd Rhondda)*



# Ymgysylltu a Dylanwadu

**Rydym yn parhau i gymryd rhan weithredol mewn nifer sylweddol o bartneriaethau a grwpiau cynllunio ar lefel leol neu ranbarthol (Cwm Taf Morgannwg) gan gynnwys y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Rydym hefyd yn dylanwadu'n uniongyrchol ar ddatblygiadau cenedlaethol trwy TSSW.**

Rydym yn hwyluso ystod o rwydweithiau/fforymau trydydd sector sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Mae'r rhain yn rhoi cyfle i bartneriaid ymgysylltu â'r trydydd sector; cyfleoedd rhwydweithio ymhlith mudiadau'r trydydd sector; a chyfle i rannu gwybodaeth a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Dros y flwyddyn fe wnaethom ailgyflwyno cyfarfodydd wyneb yn wyneb, a chroesawodd adborth cyfranogwyr y gallu i gwrdd wyneb yn wyneb eto. Cawsom adborth tebyg gan y 414 o bobl a fynychodd weithdai a digwyddiadau unigol a drefnwyd gennym.

*"Mae'r Rhwydwaith Cyfeillio wedi bod yn gwerthfawr iawn ar gyfer rhwydweithio gyda mudiadau eraill ... Mae'r cysylltiad gyda chyllidwyr a byrddau partneriaeth rhanbarthol yn hanfodol ar gyfer cynllunio tymor hir." Helen McShea, Cydlynydd Prosiect 50+ Ailgysylltu*

## Yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni:

- Cynhyrchwyd **3** rhifyn o Gylchlythyr Inform yn ystod y flwyddyn yn ogystal â chyflwyno bwletinau cyllid a gwybodaeth gyffredinol a ddosbarthwyd i aelodau yn amlach.
- Roedd **4,821** o ddefnyddwyr newydd i'n gwefan a **14,207** o ymweliadau tudalennau.
- Cododd ein dilynwyr Facebook i **1,267** a chyflawnwyd cynnydd o **517.5%** yn ein cyrhaeddiad o bostiadau Facebook.
- Trwy Twitter cawsom bron i **9,000** o argraffiadau ar ein gweithgaredd, gyda'r rhan fwyaf o effaith yn cyd-fynd â Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd.
- Y tu allan i strwythur TSSW, rydym yn cymryd rhan fel mater o drefn mewn dros **30** o bartneriaethau a grwpiau cynllunio ar lefel leol/rhanbarthol.

**Fe wnaethom gydweithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar eu Uwchgynhadledd Costau Byw ym mis Tachwedd 2022 a gynhaliwyd yng Nghanolfan Fusnes Orbit a fynychwyd gan weithwyr proffesiynol amlasiantaethol. Nododd canlyniadau'r digwyddiad bedwar maes pryder sef: tlodi tanwydd; tlodi bwyd; biliau'r cartref; iechyd a lles. Cytunwyd i ddefnyddio ein Rhwydwaith Ffyniant Bwyd presennol a'r Fforwm Iechyd a Lles a'u haelodaeth i ddyrannu gwybodaeth, cyngor a chymorth sydd ar gael i unigolion, yn ogystal â chasglu gwybodaeth am y cymorth sy'n cael ei gynnig gan aelod-fudiadau.**



*"Ro'n i eisiau diolch eto am y rôl rydych chi'n ei chyflawni - wrth ddiwygio arfer ar lefel leol, a rhannu mewnwelediadau i ddiwygio polisi ar lefel genedlaethol - i ddileu newyn o Ferthyr Tudful." Andrew Forsey Cyfarwyddwr Cenedlaethol, Feeding Britain*

FEEDING BRITAIN
A HUNGER FREE UK

# Gwerth ychwanegol drwy waith a ariennir gan brosiectau

**Rydym yn gwella ein gallu craidd gyda staff ychwanegol yn cyflawni yn erbyn meysydd prosiect penodol; rhai grantiau wedi'u hariannu a rhai gyda Chytundebau Gwasanaeth. Mae'r amlinelliad o'r holl brosiectau yn cyd-fynd â'n busnes craidd cyffredinol .**

Mae'r prosiectau hyn yn cyfrannu at ein hymgysylltiad ag unigolion yn y gymuned, ein haelodau a'n partneriaid. Mae eu gwaith eleni yn cynnwys:

## Cydlynydd Cymunedol: drwy Gronfa Integreiddio Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg (RIF)

Rhoddodd y Cydlynydd Cymunedol gymorth i'r rhai 50+ oed i gael mynediad at wasanaethau a gweithgareddau yn y gymuned er budd eu hiechyd a'u lles.

### Yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni:

- Derbyn **344** o atgyfeiriadau (cynnydd o **23%** o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol)
- Gwneud **213** o atgyfeiriadau
- **191** o gyfeiriadau at gefnogaeth trydydd sector

Rydym yn gweld mwy o gymhlethdod yn yr atgyfeiriadau sy'n cael eu derbyn, lle mae problemau iechyd meddwl yn fwy cyffredin fel arfer. Mae buddsoddi mewn hyfforddiant ychwanegol a phenodol i'n Cydlynydd Cymunedol wedi bod yn allweddol.

**Sylwadau gan brosiect Cydlynydd Cymunedol (presgripsiynu cymdeithasol):**

- *Mae'n ddrwg gen i ffonio a chwyno i chi ond rwy'n teimlo'n gyfforddus yn siarad â chi, a phan dwi'n siarad â chi dwi'n cael fy mhen yn syth... Does dim pwynt cadw'r straen hwn i gyd i mi fy hun. Mae angen cefnogaeth arna i nawr!*
- *Mynychais y grŵp a mwynhau'n fawr, a chwrdd â rhai pobl roeddwn i'n eu hadnabod 70 mlynedd yn ôl. Bendigedig!*
- *Doedd dim cefnogaeth ac yna fe ffonioch chi a nawr mae gen i gymaint yn mynd ymlaen dwi'n drysu efo'r cyfan, dw i ddim yn cwyno - dim ond 'boom' ac yno roedd y gefnogaeth!*

## Iechyd Meddwl: Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg




Mae dwy rôl, sy'n cwmpasu cyfranogiad a datblygiad defnyddwyr gwasanaeth/gofalwyr, yn gweithio mewn partneriaeth â rolau cyfatebol yng Nghyngor Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr a RhCT i ddarparu ymateb rhanbarthol i'r agenda iechyd meddwl.

Ffocws allweddol ym Merthyr Tudful oedd tynnu sylw at yr agenda iechyd meddwl drwy gynnal digwyddiadau rhwydweithio a hyrwyddo gweithgareddau/gwasanaethau lleol yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl, mapio ac ymgysylltu ag unigolion a grwpiau i sefydlu diddordeb mewn rhwydwaith Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth. Hefyd, datblygu ffilm yn llwyddiannus i ddangos gwirfoddoli fel effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl.

## Canolfan Gymunedol Calon Las: drwy Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Yn gweithio yng nghyffiniau Canolfan Gymunedol Calon Las er budd i'r rhai sy'n byw a/neu'n gweithio yn ardal y Gurnos yn y Fwrdeistref. Mae'r Swyddog hwn yn darparu ystod o wybodaeth, cyngor a chefnogaeth ar gyfer datblygu grŵp; cyllid a chyfranogiad gyda gweithgareddau lleol, yn ogystal â rheoli'r cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ar gyfer Calon Las.

## Arweinydd Gweithredu Lleol: trwy Sefydliad Banc Lloyds Cymru a Lloegr (LBFEW):

Roedd y rôl ran-amser hon yn darparu cysylltiad rhwng Tîm Datblygu Sefydliad Banc Lloyds a phartneriaid lleol, i ddatblygu'r gwaith LBFEW o amgylch newid systemau ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc.

Daeth y secondiad hwn i ben ar ddiwedd Ch2 pan ddychwelodd y deiliad i'w rôl sylweddol a rhoddodd hyn gyfle i Lloyds Bank Foundation England a Chymru ailasesu'r rhaglen waith gyda phartneriaid.

Mae VAMT wedi cytuno i gynnal rôl Arweinydd Gweithredu Lleol llawn-amser newydd ar gyfer 2023-24 i barhau â'r cydweithio hwn.

## Swyddog Datblygu Mynd i'r Afael ag Unigrwydd ac Ynysigrwydd: trwy RIF

Mae'r rôl yn cyd-fynd â thema'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd ac un o brif nodweddion y rôl oedd cydweithio â phartneriaid Gwasanaethau Cyhoeddus, e.e. y Gwasanaeth Tân, sy'n adnabod unigolion unig/ynysig ac yn eu cyfeirio at y Swyddog Datblygu Mynd i'r Afael ag Unigrwydd a Ynysigrwydd fel cyfrwng i Gydlynwyr Cymunedol / Lles o fewn y cynghorau gwirfoddol sirol.

Mae recriwtio wedi bod yn hynod o anodd ac mae'r swydd wedi bod yn wag i raddau helaeth yn ystod y flwyddyn.

# Cynlluniau ar gyfer cyfnodau'r dyfodol

**Bydd ein blaenoriaethau craidd yn cynnwys:**

### Llywodraethu:

- Darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i'n haelodau a'u Hymddiriedolwyr ar lywodraethu effeithiol.
- Adolygu dull ein mudiad ein hunain o recriwtio, hyfforddi a datblygu ymddiriedolwyr.

### Cyllid Cynaliadwy:

- Gweithio gyda chyllidwyr ein staff prosiect presennol i gynnal gwasanaethau.
- Gweithio gyda chyllidwyr newydd i gynyddu'r cymorth sydd ar gael i'n haelodau a'n cymunedau.

### Ymgysylltu a Dylanwadu:

- Parhau i hwyluso ystod o rwydweithiau'r trydydd sector i ddarparu cyfleoedd ymgysylltu i'n haelodau a'n partneriaid.
- Cynrychiolaeth barhaus o'r sector mewn Partneriaethau Strategol a Grwpiau Cynllunio ar lefel Genedlaethol / Rhanbarthol a Lleol.
- Cydweithio â Interlink RhCT a BAVO mewn perthynas â phartneriaethau rhanbarthol a darparu gwasanaethau ar y cyd ar draws ôl troed Cwm Taf Morgannwg.

### Gwirfoddoli:

- Darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i bobl sy'n dymuno gwirfoddoli.
- Cefnogi mudiadau sy'n dymuno elwa o gyfranogiad gwirfoddolwyr a/neu ymgymryd â gweithgareddau gwirfoddoli corfforaethol.

# Datganiad o Weithgareddau Ariannol

## Gan Gynnwys Cyfrif Incwm a Gwariant

### AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2023

| | Cronfeydd anghyfyngedig 2023 | Cronfeydd cyfyngedig 2023 | Cyfanswm 2023 | Cyfanswm 2022 |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **Incwm oddi wrth:** | | | | |
| Gweithgareddau elusennol | 295,513 | 640,459 | 935,972 | 971,538 |
| Gweithgareddau eraill | 58,347 | - | 58,347 | 42,631 |
| Buddsoddiadau | 4,468 | - | 4,468 | 2,435 |
| **Cyfanswm incwm** | **358,328** | **640,459** | **998,787** | **1,016,604** |
| **Gwariant:** | | | | |
| Gweithgareddau elusennol | 384,954 | 635,416 | 1,020,370 | 867,874 |
| Enillion net / (colledion) ar fuddsoddiadau | (3,273) | - | (3,273) | 6,886 |
| **Net (alldaliadau) / adnoddau sy'n dod i mewn cyn trosglwyddiadau** | (29,899) | 5,043 | (24,856) | 155,616 |
| Trosglwyddiadau gros rhwng cronfeydd | 86,257 | (86,257) | - | - |
| **Symudiadau net mewn cronfeydd** | 56,358 | (81,214) | (24,856) | 155,616 |
| Balansau'r Gronfa ar 1 Ebrill 2022 | **751,493** | **209,570** | **961,063** | **805,447** |
| **Balansau'r Gronfa ar 31 Mawrth 2023** | 807,851 | 128,356 | 936,207 | 961,063 |

# Mantolen

## AR 31 MAWRTH 2023

| | 2023 | | 2022 | |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **Asedau sefydlog** | | | | |
| Asedau diriaethol | | 80,148 | | 81,731 |
| Buddsoddiadau | | 84,020 | | 87,293 |
| | | 164,168 | | 169,024 |
| **Asedau cyfredol** | | | | |
| Dyledwyr | 38,250 | | 164,965 | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 776,422 | | 668,755 | |
| | 814,672 | | 833,720 | |
| **Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | (42,633) | | (41,681) | |
| **Asedau cyfredol net** | | 772,039 | | 792,039 |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | 936,207 | | 961,063 |
| **Cronfeydd incwm** | | | | |
| Cronfeydd cyfyngedig | | 128,356 | | 209,570 |
| Cronfeydd anghyfyngedig | | 807,851 | | 751,493 |
| | | 936,207 | | 961,063 |

# Ymddiriedolwyr a Gweinyddiaeth Elusen


## Bwrdd yr Ymddiriedolwyr 2022-23

Suzanne Davies
Tanya Edwards
Dr Hefin Jones OBE
Nicola Mahoney
Kayleigh Nor-Val
Anne Roberts MBE
Michael Ronan


| | |
|---|---|
| **Ysgrifennydd y Cwmni** | Sharon Richards |
| **Enw'r Elusen a'r Cwmni** | Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful |
| **Rhif Cofrestru'r Cwmni** | 6058360 |
| **Rhif Cofrestru Elusen** | 1118403 |
| **Banc** | HSBC, 127-128 High Street, Merthyr Tudful CF47 8DN |
| **Archwilwyr** | Mitchell Meredith Ltd, St David's House, 48 Free Street, Aberhonddu, Powys LD3 7BN |